| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 30ain Ionawr 2024 |
| **TEITL** | Adroddiad yr Adran Addysg |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith |
| **AWDUR** | Rhys Glyn- Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd |

1. **CEFNDIR**

1.1. Bwriad yr adroddiad hwn ydi cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am

gyfraniad yr Adran Addysg i strategaeth Iaith y Cyngor.

1.2 Mae'r Adran Addysg yn cynnwys amrediad o wasanaethau gan gynnwys ysgolion.

1.3 Fel Adran, mae pob ymdrech i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol

1.5 Mae'r adroddiad yn amlygu'r gweithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgolion ac yn y gymuned.

2. **YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR**

| **Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo** |
|---|
| Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddwytha sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?<br><br>Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:<br>1. Iaith y teulu,<br>2. Iaith dysgu,<br>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,<br>4. Iaith y gymuned<br>5. Ymchwil a Thechnoleg<br><br>Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma:<br>(https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf) |

**Ateb:**
**Mae holl wasanaethau'r Adran Addysg yn gweithredu blaenoriaethau Strategaeth Iaith y Cyngor. Rhoddir ystyriaeth lawn iddynt yng nghynlluniau hir dymor a gwaith dydd i ddydd yr adran i hyrwyddo'r Gymraeg a darparu gwasanaeth dwyieithog o fewn y sir.**
**Mae ysgolion Gwynedd yn parhau i roi bri a gwerth i'r Gymraeg trwy annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu trwy weithredu egwyddorion y Siarter Iaith a Strategaeth Uwchradd.**

Dan arweiniad y Cydlynwyr Iaith Dalgylchol a chyda cydweithrediad ymgynghorwyr Gwe sicrheir fod Grant y Gymraeg yn cael ei wario i ddiwallu anghenion hyfforddiant staff yng nghyd destun y Gymraeg ac hefyd i ddatblygu prosiectau arloesol yn y Gymraeg.

Mae'r holl weithgarwch a'r cydweithio rhwng yr Ysgolion cynradd ac Uwchradd yng nghyd destun trefniadau pontio yn gryfder yn y sir. Ymhob clwstwr sicrhawyd cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac mae tystiolaeth doreithiog yn dangos brwdfrydedd y dysgwyr wrth sgwrsio a datblygu eu sgiliau llafar gan ryngweithio efo disgyblion eraill ymhob un o'r clystyrau- hynny'n cynnwys disgyblion o'r Uwchradd.

Yn y dalgylchoedd mwyaf heriol, sef **Bangor a Thywyn**, rhoddwyd mewnbwn ychwanegol i weithgarwch pontio. Trefnwyd gweithdai yn seiliedig ar gynllun yr Urdd 'Chwarae yn Gymraeg' ar gyfer dysgwyr blwyddyn 5 a 6 gyda'r nod o greu llysgenhadon chwaraeon fyddai wedyn yn mynd ati i hyfforddi'r dysgwyr iau (Babanod) i chwarae yn Gymraeg. Cafwyd adborth hynod o gadarnhaol i'r prosiect hwn gan staff Ysgolion a'r plant eu hunain. Yn ogystal trefnwyd gweithdai Gwyddoniaeth gyda chwmni Sbarduno gyda'r bwriad o normaleiddio'r Gymraeg o fewn y maes a meithrin hyder y dysgwyr i astudio'r maes trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd cynhaliwyd gweithdy creadigol i ddysgwyr blwyddyn 5 hefo artistiaid yn y Nyth ym Mangor i annog y dysgwyr i fod yn greadigol a mynd ati gyda help i greu cynhyrchiad o'u dewis. Prosiect tymor hir yw hwn fydd yn rhedeg dros 2 flynedd a chyfle i rannu'r cynhyrchiad yn ystod tymor yr haf 2024 hefo rhieni a gwarchodwyr y plant.

Yn **dalgylch Ysgol Glan y Môr** datblygwyd prosiect gyda Chwmni Drama Tebot, gan greu sgript o stori neu chwedl oedd yn bwysig yn yr ardal. Roedd hwn yn gyfle i ddisgyblion fagu hyder ar lafar drwy gyfrwng gweithdai drama a pherfformio, a'u galluogi i ddod i adnabod straeon eu bro yn well. Roedd yn gyfle hefyd i'r disgyblion fod yn falch o'u milltir sgwâr.

Aethpwyd ar ôl prosiect enwau llefydd gydag ysgolion dalgylch **Botwnnog**. Creodd y disgyblion animeiddiad yn cynnwys sain gyda Sioned Medi gan glymu'r gwaith o gasglu'r enwau llefydd a'u dehongli trwy ffurf digidol. Bu Ed Holden yn ymweld â phob ysgol er mwyn creu rhythm a sain i lafar ganu'r enwau llefydd.

Yn **Eifionydd** bu Arweinwyr yr Urdd yn ymweld â phob ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod. Trefnwyd i bob disgybl ym mlwyddyn 3 i 6, a disgyblion blwyddyn 7 Ysgol Eifionydd fod yn rhan o'r prosiect. Trefnwyd diwrnod pontio blwyddyn 6 a 7 gan ddefnyddio'r thema 'Cwpan y Byd'.
Cafwyd sesiwn hwyliog o gynnal Carioci a dysgu geiriau caneuon o dan arweiniad yr adran gerdd, sesiwn efo sylwebydd pêl droed, sesiwn ieithoedd modern, a disgo Caneuon Cymraeg i ddiweddu'r dydd.
Yn **ysgol Bro Idris** Ffês 2 a Ffês 3: cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol a Gig Gymraeg.
Er mwyn codi proffil y tai yn yr ysgol a chreu ymdeimlad o dîm a pherthyn ymysg y plant, lansiwyd cystadleuaeth yn y gwasanaeth i greu logo ar gyfer bob tŷ drwy roi cyflwyniad yn y gwasanaeth iddynt ddeall y nôd ac arwyddocâd bod yn perthyn i dŷ. Penderfynodd y Cyngor Iaith gynnal gig Bwncath a threfnu i gael DJ Bustach yn bresennol. Rhoddwyd gwahoddiad i ysgolion lleol i ymuno

yn y digwyddiad. Hefyd derbyniodd cymorthyddion y dalgylch hyfforddiant er mwyn datblygu'r defnydd o iaith anffurfiol wrth gyflwyno gweithgareddau ar y buarth. Mynychodd un athrawes o'r uwchradd yr hyfforddiant hefyd. Yn ogystal cynhaliwyd 'Taith Sioe mewn Cymeriad' i ysgolion y dalgylch – Taith yr Iaith, gweithdy Hedd Wyn i Flwyddyn 7 o dan arweiniad Siôn Emyr a chyflwyniad 'Cymreictod' gan Ameer Davies-Rana.

Yn dalgylch y **Moelwyn** datblygwyd cyfres o weithgareddau ar thema Cwpan y Byd.
Trefnwyd gweithgareddau amrywiol ym mis Medi gyda blwyddyn 6 yr ysgolion cynradd: gweithgareddau pêl droed, creu baneri i ddathlu achlysur cwpan y byd a chyfansoddi cân gydag Osian a Branwen Williams. Treuliodd athrawes Gelf yr ysgol Uwchradd gyfnodau yn yr ysgolion cynradd i gwblhau'r baneri. Cafwyd Diwrnod Lawnsio, ac fe berfformiwyd y gân a gyfansoddwyd. Yn ogystal trefnwyd Sesiwn Taith yr Iaith o amgylch yr ysgolion cynradd i gyflwyno hanes yr Iaith gan Gwmni Mewn Cymeriad oedd yn hyrwyddo hanes a datblygiad yr iaith Gymraeg.
Yn dalgylch Tywyn Gloywi Iaith oedd y thema a threfnwyd gweithdy Clocs-ffit gyda Tudur Phillips hefyd bu Catrin Toffoc yn ymweld â phob ysgol i weithio ar gywiro gwallau cystrawennol mewn modd hwyliog ar ffurf rhigwm a chân. Yn yr ysgol uwchradd creodd y dysgwyr bodlediad yn seiliedig yr ardal leol.
Datblygwyd tri cynllun yn Ysgol Godre'r Berwyn
**Ffês 1:Hwiangerddi:** Codi ymwybyddiaeth disgyblion iau o hwiangerddi traddodiadol gyda naws gyfoes.
**Ffês 2 (Bl. 5 a 6)**: **Sylwebu pêl droed.** Codi proffil y Gymraeg yn y byd pêl-droed o fewn yr ardal- gweld bod lle i'r iaith ymysg y cefnogwyr, chwaraewyr, cyfryngau a'r diwydiant.
**Ffês 2 ( Bl. 7-8 ynghŷd ag elfennau o bontio): Podlediad Pontio.**
Cyfle i fl 6 a 7 gydweithio i ymchwilio, cynllunio a chreu podlediad ar gyfer darpar ddisgyblion ym ml.6. Marc Griffiths yn arwain ar yr ochr gynhyrchu.
**Ffês 3+ 6ed**: **Gig.**
Roedd bandiau o fewn yr ysgol yn awyddus i gael mwy o brofiad perfformio ac i godi eu proffil. Hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg lleol ac ehangach oedd y nôd. Llwyddwyd i greu blas o awyrgylch 'gig' i'r disgyblion hynaf a chodi awydd arnynt i fynychu mwy o gigiau Cymraeg yn y dyfodol.
Yn dalgylch Bangor bu'r dysgwyr wrthi'n creu Podlediad dan arweiniad Cwmni'r Fran Wen. Plethwyd y podlediad gyda map rhyngweithiol a grewyd gan Fenter Iaith Bangor.
Seiliwyd gweithgareddau dalgylch Syr Hugh Owen ar brosiect *Ein Llais Ni* i hybu sgiliau Llafaredd Dysgwyr. Yn yr ysgol Uwchradd bu disgyblion y Chweched yn cynnal teithiau cerdded dan arweiniad Rhys Mwyn. Prif amcan y teithiau oedd i addysgu'r dysgwyr am hanes eu hardal a'u hannog i fwynhau eu milltir sgwâr. Yn ogystal crëwyd gwaith celf drwy ddefnyddio enwau'r llefydd welwyd ar y teithiau.
Yn **nalgylch Dyffryn Ogwen a Brynrefail** trefnwyd Hyfforddiant Iaith y Buarth ar gyfer staff yr holl ddalgylch. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r Welsh Whisperer i gyfansoddi caneuon, anthemau i glodfori'r ardal. Yn ogystal trefnwyd sesiwn hyfforddiant gyda Andrew Walton ar sut i greu podlediad.

Yn dalgylch **Ardudwy** trefnwyd a chynhaliwyd 'Gemau iaith' er mwyn i'r disgyblion Cynradd/Uwchradd ymgyfarwyddo a dod i 'nabod ei gilydd
Rhannwyd gwybodaeth am Hanes Pêl droed Cymru drwy wylio hen glipiau. Yna aethpwyd ati i lunio drama a chreu llun llonydd o'r digwyddiadau mwyaf cofiadwy yn hanes pêl-droed Cymru.
Ysgrifennwyd nodyn at Robert Page, rheolwr y garfan i ddymuno pob lwc i'r tîm
Cynhaliwyd gweithgareddau creadigol- creu Crys Pêl droed Cymru ar ffurf origami. Hefyd rhoddwyd cyfle i'r dysgwyr ddylunio Stadiwm pêl droed a defnyddio'r crysau fel chwaraewyr. Esblygodd hyn gan esgor ar ddatblygu sylwebaeth a chreu ffilm. Cyfansoddwyd a pherfformiwyd Anthem wreiddiol 'Pob lwc Cymru'. I gloi bwrlwm yn gweithgarwch cafwyd sgwrs gyda Nicky John, cyflwynwraig Sgorio dros Teams.

**Fforwm Iaith Ysgolion Uwchradd:**

Mae Fforymau Iaith wedi'u sefydlu ym mhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd er mwyn arwain ar waith y Strategaeth Iaith Uwchradd o fewn yr ysgolion, a phob ysgol uwchradd wedi hunan-arfarnu gweithrediad y Strategaeth, a gosod eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn addysgol Medi 2023-Gorffennaf 2024. Bydd Cydlynydd y Strategaeth yn ymweld â rhai o'r Fforymau yn ystod y flwyddyn.
Cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith gyda Dysgwyr blwyddyn 9 mewn ysgolion uwchradd o fewn y Sir er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dwyieithrwydd a'r buddion a ddaw o fod yn hyfedr ddwyieithog. Mae cynlluniau hefyd yn eu lle i gynnal sesiynau'n hybu balchder disgyblion Blwyddyn 7 yn eu Cymreictod. Fel rhan o weithgareddau a ddaeth yn sgil Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, cafodd 75 o ddisgyblion o 3 o ysgolion uwchradd Dwyfor hyfforddiant a alluogodd iddynt gydweithio i gynhyrchu ffilmiau ac animeiddiad oedd yn adrodd straeon am fywyd cymeriadau, diwylliant a hanes yr ardal leol gan amlygu'r hunaniaeth Gymreig. Bu i'r ffilmiau gael eu dangos ar faes yr Eisteddfod. Trefnwyd Taith Maes B ar gyfer ysgolion Uwchradd Dalgylch yr Eisteddfod, a bu'n llwyddiannus dros ben wrth godi ymwybyddiaeth y dysgwyr hyn o'r Eisteddfod.

**Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg**.

Roedd 1316 o ddysgwyr yn y cohort Blwyddyn 11 yn ysgolion uwchradd Gwynedd Haf 2023. Casglwyd y data yn unigol gan bob un o'r ysgolion uwchradd.

| DANGOSYDD O RAN DEILLIANT 4 | CANRAN |
|---|---|
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n astudio o leiaf 3 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 71.7% |
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n astudio o leiaf 5 phwnc CA4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 67.8% |
| Canran disgyblion Bl.11 sy'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 87.01% |

Mae'r ffigyrau sy'n astudio Cymraeg Iaith Gyntaf hyd at Safon Uwch, yn lleol ac yn genedlaethol, yn parhau'n isel. 42 o fyfyrwyr Safon Uwch o ysgolion uwchradd Gwynedd a wnaeth sefyll y cymhwyster yn derfynol Haf 2023 ac mae hynny'n gynnydd o'r 36 yn 2022. Mae'r ffigwr hwn yn ymddangos yn isel, ond o'i roi mewn cyd-destun cenedlaethol, rhaid cydnabod mai 176 o ymgeiswyr Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf oedd yng Nghymru yn 2023. Felly roedd ymgeiswyr Gwynedd yn 23.9% o'r cyfanswm cenedlaethol.

Rhaid nodi hefyd bod ymroddiad yr ysgolion i'r cymhwyster yn dda iawn gyda 6 o 7 o'r ysgolion uwchradd ôl-16 yn darparu ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf hyd at Safon Uwch – ac fe gyflwynwyd un myfyriwr o'r seithfed ysgol hefyd i'w sefyll trwy drefniant partneriaeth.

**Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd**

Yng Ngwynedd mae gennym strwythur staffio cadarn i fonitro dilyniant ieithyddol yn y cynradd a'r uwchradd gan gynnwys pontio. Mae gennym Gydlynydd y Siarter Iaith yn arwain yn y cynradd a'r Cydlynydd Strategaeth iaith yn gyfrifol am yr uwchradd. Yn ogystal, mae'r cydlynwyr iaith dalgylchol yn gweithredu ymhob clwstwr. Mae'r rhwydwaith staffio yma yn sicrhau ein bod fel Awdurdod yn gallu tracio datblygiad ieithyddol ein dysgwyr ar hyd y continwwm iaith. Golyga hyn ein bod yn gallu blaen gynllunio i sicrhau fod darpariaeth briodol yn ei lle i sicrhau dilyniant fel bod ein dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol wrth drosglwyddo o un sector i'r llall.

Mae'r cydlynwyr iaith dalgylchol yn cydweithio hefo pob ysgol gynradd i fapio hyder ieithyddol dysgwyr ar ddiwedd blwyddyn 2 a blwyddyn 6 trwy goladu asesiadau athrawon o garfannau iaith y plant. Yn ogystal byddant yn casglu, coladu a dadansoddi data Gwe iaith yn y cynradd a'r uwchradd er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yng nghyd destun defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg a'u hyder a'u harferion wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn yr ysgol

Dengys y tabl isod fod 67% o blant ysgolion cynradd Gwynedd yn trosglwyddo i'r uwchradd ym Medi yn hyfedr ddwyieithog(carfan A+B)Mae nifer helaeth o ddysgwyr sy'n syrthio i gategori C2 hefyd yn ddwyieithog ond oherwydd iaith eu cartref mae'r Saesneg yn gryfach. Mae'r dysgwyr sy'n syrthio i garfan C2 yn blant sydd wedi cyrraedd yr ysgolion ar ddiwedd CA2 neu'n ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae dysgwyr carfan Ch hefyd yn blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

| Carfannau Iaith Dysgwyr Bl 6 wrth drosglwyddo i'r uwchradd ym Medi 2022 | | |
|---|---|---|
| Carfan | Disgrifiad | Canran |
| A | Disgyblion hyfedr yn y ddwy iaith | 60% |
| B | Disgyblion cryfach eu Cymraeg na'u Saesneg | 7% |
| C1 | Disgyblion cryfach eu Saesneg na'u Cymraeg | 28% |
| C2 | Disgyblion Cyfyng eu Cymraeg e.e. hwyrddyfodiaid | 3% |
| Ch | Disgyblion sy'n gyfyng o'u defnydd o'r ddwy iaith | 2% |

O'r data gasglwyd o ysgolion uwchradd yr Awdurdod ar dechrau tymor yr Haf 2023 mae 78% o'r garfan ym mlwyddyn 7 yn dilyn 80% neu fwy o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data hwn yn gadarnhaol iawn, fodd bynnag mae blaenoriaethau o fewn Cynlluniau Gwella pob ysgol gynradd ac uwchradd o fewn y sir i gynnal ac mewn rhai sefydliadau i gynyddu'r ddarpariaeth yn enwedig felly yn y dair ysgol drosiannol. Mae 50% o blant Clwstwr Bangor yn syrthio i garfan C1 a 39% yng ngharfan A. Mae prosiectau gloywi ac adennill hyder eleni yn digwydd o fewn y clwstwr yn targedu dysgwyr blwyddyn 5, i godi safonau a hyder y dysgwyr yn y Gymraeg.

**Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau**

i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau Iaith).

ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg)?

iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r

adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwyieithog.

**Ateb:**
Mae'r data isod yn crynhoi sefyllfa gyfredol Dynodiadau Iaith holl staff yr Adran Addysg:
Nifer staff yr Adran 3289
Nifer wedi cwblhau'r hunan asesiad 1546
Nifer heb gwblhau 1743.
Canran staff sydd wedi cwblhau 46%
Canran y staff sydd heb gwblhau'r asesiad 54%
**Dadansoddiad o asesiadau staff ar Fframwaith y Dynodiadau Iaith**:
Lefel Hyfedredd 872
Uwch 359
Canol 108
Mynediad 104
Sylfaen 58
Dim sgiliau 13
Nifer o staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd 91.078%

Nifer o staff sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd 8.93%

Mae 97.3% o'r athrawon cynradd a 86.3% o athrawon uwchradd yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Manteisiwyd ar y cyfle i gael gwersi Cymraeg gan Ganolfan Bedwyr gan gymorthyddion un o'r ysgolion cynradd trosiannol, fel rhan o gynlluniau i ymateb i ddata Hunan Asesiad Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg. Dilynodd un aelod o staff cynorthwyol gwrs Lefel Mynediad, ac 8 aelod o staff addysgu gwrs Gloywi Iaith Lefel Canolradd/Uwch. Manteisiodd aelodau staff hefyd ar gyrsiau Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, Prifysgol Bangor. Cofrestrodd chwech ar gyfer cwrs Lefel Mynediad, un ar gwrs prif ffrwd lefel Canolradd, a dau ar gwrs Magu Hyder. Rhennir gwybodaeth yn gyson gyda'n hysgolion am y ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer gwella sgiliau Iaith Gymraeg y gweithlu.

Mae sawl cyfeiriad yn yr adroddiad hwn at hyfforddiant penodol i staff ein hysgolion o ran addysgu'r Gymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynlluniau o ran dulliau trochi hwyr a cheir cynlluniau penodol ar gyfer y dair ysgol drosiannol – yn fwy manwl a dwys ar hyn o bryd yn y ddwy ysgol ym Mangor. Gofynnwyd i staff pob ysgol yng Ngwynedd – cynradd ac uwchradd – i gwblhau eto Hunan asesiad y Gymraeg er mwyn diweddaru ein gwybodaeth a'n galluogi i dargedu hyfforddiant yn fwy effeithiol wrth symud ymlaen. Mae trafodaeth wedi bod eleni ar sicrhau darpariaeth mwy penodol i Wynedd gan GwE ac i'r ysgolion trosiannol gan nad yw'r cynllun sabothol yn cydio nac yn gwbl briodol yn y sir.

**Rhwystrau:**

Mynediad i rai staff ym maes Arlwyo Glanhau, a'r Gwasanaeth Ieuenctid at offer digidol i gwblhau'r hunan asesiad iaith.

Rhai rheolwyr  wedi mynegi bod rhai o'u staff yn ddihyder wrth ddynodi eu lefel ieithyddol ac yn tueddu i sgorio eu hunain yn is ar y fframwaith na'r hyn ydynt mewn gwirionedd sydd yn cael effaith ar ddibynadwyedd y data

Recriwtio staff ym maes Arlwyo a Glanhau.
Diffyg data yn gyffredinol i gwrdd â rhai o safonau'r Gymraeg.

**Canmoliaeth a Chwynion;**

**Gweler isod farn ESTYN ar ddarpariaeth Gymraeg yr Awdurdod -Arolygiad Mehefin 2023**
Mae gan yr awdurdod weledigaeth glir o ran sicrhau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion a phobl ifanc Gwynedd drwy gydol eu hamser mewn addysg. Mae hyn yn seiliedig ar sefydlu 'cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth'. Mae Polisi Iaith Gwynedd ynghyd ag ystod o bolisïau perthnasol eraill yn gonglfaen i holl waith yr awdurdod ac yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion dwyieithog hyderus. Er enghraifft, mae blaenoriaethau cynllun 'Gwynedd Gymraeg' a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yn adlewyrchu dyheadau a thargedau allweddol addas dros y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'r Fforwm Iaith Addysg yn cyfarfod yn dymhorol i fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a thargedau'r CSGA a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod gan arweinwyr yr adran addysg ac aelodau etholedig ddealltwriaeth gadarn o'r blaenoriaethau. Mae'r CSGA yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws bob sector, gan gynnwys cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a phobl ifanc i ddysgu a defnyddio'r iaith gyda hyder ac fel rhan arferol o fywyd bob dydd. Mae'r cynllun yn nodi targedau priodol ar gyfer hyn, gan gynnwys adnabod heriau ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i gynnal a datblygu medrau Cymraeg y gweithlu trwy gydweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid strategol ac asiantaethau allanol. Adroddiad ar Gyngor Gwynedd Mehefin 2023 13 Mae gan yr awdurdod berthynas waith dda gydag asiantaethau allanol a mudiadau ymbarél fel y Mudiad Meithrin. Maent yn cydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar trwy sicrhau mynediad at addysg a gofal. Mae prosiectau 'Gwynedd Yfory' yn datgan pwysigrwydd cydweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau'r cychwyn gorau i holl blant y sir. Er enghraifft, mae'r awdurdod wedi sefydlu canolfannau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd penodedig i gefnogi plant a theuluoedd. Mae'r cydweithio llwyddiannus gyda phartneriaid yn gymorth i sicrhau bod bron bob plentyn sy'n mynychu lleoliadau nas-cynhelir yn trosglwyddo i addysg Gymraeg mewn ysgolion. Mae arweinwyr a swyddogion yn blaenoriaethu datblygu'r Gymraeg trwy fuddsoddi mewn gwella cyfleusterau dysgu. Defnyddiant y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Gwynedd er enghraifft, i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion newydd er mwyn cynnig addysg gynnar a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru i wella ansawdd adeiladau'r canolfannau trochi iaith yn ogystal ag adeiladu lleoliadau newydd i gefnogi disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n newydd i'r Gymraeg. Mae hyn hefyd yn lleihau'r pellter rhwng cartrefi'r disgyblion a'r canolfannau hyn ac yn cynnig ystod dda o adnoddau a chyfleusterau ar eu cyfer. Yn lled ddiweddar, mae'r awdurdod wedi diwygio'i Gyfundrefn Addysg Drochi er mwyn sicrhau bod y polisi iaith yn gynhwysol ac yn cefnogi hwyrddyfodiaid, gan gynnwys disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, i gaffael y Gymraeg. O dan arweiniad pwrpasol arweinwyr newydd, mae'r gwasanaeth yn cynnig darpariaeth fuddiol i ddisgyblion cynradd ac uwchradd mewn chwe lleoliad ar draws yr awdurdod. Mae'r cwrs dwys deg wythnos yn cefnogi disgyblion i gaffael ar fedrau ieithyddol buddiol sy'n eu galluogi i ymuno â'u cyfoedion yn eu hysgolion lleol ac i ddefnyddio'r iaith yn ffurfiol ac anffurfiol o fewn eu cymunedau. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth ac arweiniad buddiol i athrawon a chynorthwywyr dysgu i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Er enghraifft, maent wedi hyfforddi bron bob athro a chynorthwywyr dysgu sy'n gweithio mewn dosbarthiadau dysgu sylfaen ar arferion da dulliau trochi. Elfen gadarnhaol iawn o waith Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yw'r defnydd effeithiol o dechnoleg ddigidol i gyfoethogi profiadau disgyblion a'u sbarduno i ddysgu'r Gymraeg mewn ffordd hwylus.

Rhoddir blaenoriaeth glir i sicrhau bod darpariaeth a gwasanaethau ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd ar gael trwy'r Gymraeg. Mae pob aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu yn Adroddiad ar Gyngor Gwynedd Mehefin 2023 14 ddwyieithog. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill, fel y Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod cefnogaeth arbenigol ar gael yn y Gymraeg i ddiwallu anghenion disgyblion ADY a'u teuluoedd.

Anogir y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn briodol trwy weithgareddau'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cyfrannu at wella medrau Cymraeg a Chymreictod y disgyblion yn ogystal â chefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ogystal, mae prosiect rhanbarthol 'Ein Llais Ni' ar y cyd gyda phartneriaid allanol fel Prifysgol Bangor yn gymorth i ddatblygu medrau dysgu ac addysgu medrau llafaredd. Mae ysgolion yn darparu llawer o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae llawer iawn o ddisgyblion yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf. Mae hyn yn adlewyrchu gweledigaeth a pholisi yr awdurdod i ddatblygu disgyblion sy'n gwbl ddwyieithog a hybu manteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
Mae gan yr awdurdod weithdrefnau cadarn er mwyn adnabod medrau ieithyddol y gweithlu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adnabod anghenion hyfforddiant a darparu cefnogaeth yn ôl yr angen. Mae'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod a rhanddeiliaid eraill fel Prifysgol Bangor a GwE yn cefnogi'r gwaith hwn trwy gynnig cyrsiau penodol ar gyfer yr ystod lawn o staff gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr dysgu a staff gweinyddol ac arlwyo.
Yn dilyn yr arolygiad gofynnwyd i swyddogion yr Awdurdod gyflwyno astudiaeth achos i'w rhannu'n genedlaethol yn seiliedig ar yr ystod o adnoddau gwerthfawr cyfrwng Cymraeg mae staff yr awdurdod wedi'u datblygu. Mewn ymateb i'r prinder cyffredinol yn y maes hwn, maent wedi datblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu neu addasu adnoddau sydd yn briodol i gyd-destun yr awdurdod yn ogystal â sicrhau hawliau cyfieithu ar gyfer adnoddau rhyngwladol. Mae staff y gyfundrefn drochi wedi datblygu adnodd rhithwir blaengar i ymarfer patrymau iaith a geirfa a phodlediadau pwrpasol ar fanteision dysgu Cymraeg.

**Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu**

Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

**Ateb:**

Cynnal hyfforddiant/cyfarfod mandadol rhithiol i reolwyr i godi ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg a'r Dynodiadau Iaith.

Darparu cefnogaeth i staff cyn iddynt gwblhau'r asesiad iaith. e.e. fideo fer neu gyflwyniad i fodelu'r dynodiadau iaith a'r defnydd ohonynt.

Cynnig profiadau trwy'r Gymraeg sy'n rhoi profiadau cadarnhaol i blant ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol-prosiectau aml-asiantaeth.

Chwarae yn Gymraeg-Targedu Clybiau pêl-droed- datblygu Marc Safon i glybiau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.